# CYFARFOD Y CYNGOR 11/07/24

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Beca Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, R. Glyn Daniels, Anwen J. Davies, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, John Brynmor Hughes, R. Medwyn Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Elin Walker Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Elfed P Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rob Triggs, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Siân Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Ffion Madog (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau) Carys Fôn Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Craig ab Iago, Louise Hughes, Annwen Hughes, Dewi Jones, Elwyn Jones, June Jones, Huw Wyn Jones, Nigel Pickavance a Gareth A. Roberts

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd 9fed o Fai 2024 ar fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Nodwyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Nodwyd bod sawl aelod o'r Cyngor wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar a dymunwyd adferiad llwyr a buan i bob un ohonynt.

Llongyfarchwyd pawb o Wynedd a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd Maldwyn yn ddiweddar, ac yn arbennig i Lois Medi William o Benrhosgarnedd, Prifardd yr Eisteddfod.

Yn ogystal, llongyfarchwyd Medi Harris o Borth y Gest sydd wedi ei dewis i sgwad nofio Gemau Olympaidd Paris 2024.

Llongyfarchwyd yr Aelodau Seneddol a etholwyd yn yr Etholiad cyffredinol yn ddiweddar a diolchwyd i staff y Cyngor, ac eraill a fu ynghlwm â'r holl waith yn ystod yr Etholiad.

Dymunwyd pob hwyl i Glwb Pêl-droed y Bala a Chlwb Pêl-droed Caernarfon oedd yn chwarae yn un o gystadlaethau pêl droed Ewrop - Caernarfon am y tro cyntaf erioed.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. CWESTIYNAU**

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

(1) **Cwestiwn Y Cynghorydd Jina Gwyrfai**

Pa fonitro a wneir o'r stoc tai cymdeithasol sydd dan reolaeth yr Asiantaethau Tai ar ran Cyngor Gwynedd i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol i'n trigolion a chymunedau? Yn benodol, pa ystadegau sydd ar gael i nodi

i) **Tan-feddiant** (un person mewn tŷ 3 neu 4 llofft)
ii) **Gor-feddaint** (teulu (rhiant/rhieni a dau blentyn neu ragor) mewn eiddo dwy lofft gyda'r plant mewn oed I gael llofft ei hunain oherwydd amodau cyfreithiol oed/rhyw)
iii) **Absenoldeb tenant** (rhywun sy'n talu rhent ond nad yw'n byw yn yr eiddo'n barhaol)
iv) **Cyfnewid tŷ** trwy hysbysebu am 'houseswap' preifat

**Ateb – Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, ar ran Aelod Cabinet Tai**

Yn sgil y trosglwyddiad stoc tai cymdeithasol yn 2010, nid oes gan Gyngor Gwynedd rôl nac adnodd i fonitro perfformiad y Cymdeithasau Tai sydd yn weithredol yn y sir. Mae'r rôl monitro cymdeithasau tai yn gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru trwy'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru.

Er fod gan y Cyngor gyfrifoldeb dros weithredu'r Polisi Gosod Tai Cyffredin ac yn gyfrifol am y Gofrestr Dai ar ran y Bartneriaeth Tai, mae'r materion a godir gan yr Aelod yn faterion gweithredol sy'n llwyr o fewn rheolaeth y cymdeithasau tai unigol. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor drefniadau cadarn trwy'r Bartneriaeth Dai i hwyluso cydweithio er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gael mynediad at dai fforddiadwy, ac mae'r Adran Tai ac Eiddo eisoes wedi ysgrifennu yn ffurfiol at y cymdeithasau tai i ofyn am yr wybodaeth.

**Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Jina Gwyrfai**

A ydych chi'n derbyn fod y materion hyn yn achosi loes creulon a rhwystredigaeth i'n pobl ni, yn cael effaith negyddol ar ein cymunedau ac yn achos y 'houseswaps' yn niweidiol i'r yr iaith Gymraeg? Os felly, sut gall y Cyngor, ar ôl derbyn y data priodol, ddylanwadu/cydweithio ar y Bartneriaeth Tai a gwella'r sefyllfa anfoddhaol bresennol, gan sicrhau defnydd effeithiol o'n stoc tai prin?

**Ateb – Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, ar ran Aelod Cabinet Tai**

Er nad yn cytuno gyda'r datganiad cyntaf gan nad oes tystiolaeth benodol ar hyn o bryd yn ôl y Gwasaneth Tai sydd yn cydfynd â sail y pryderon, nododd yr Arweinydd, ei fod yn

ymwybodol bod rhwystredigaeth oherwydd bod gan y Cyngor rhestr aros hirfaith a hynny yn broblem sylweddol i Cyngor Gwynedd fel sawl Cyngor arall. Fodd bynnag, nododd bod cais wedi ei wneud i'r Partneriaid, nid yn unig yn gofyn iddynt gyflwyno'r wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn y cwestiwn gwereiddiol, ond hefyd i ymchwilio i mewn i'r sefyllfa i ymateb yn y ffordd mwyaf priodol ar sail y dystiolaeth. O safbwynt tanfeddianu a gorlenwi, nodwyd bod Polisi Gosod Tai Cyffredinol y Cyngor yn gosod blaenoriaethau ar gyfer dyrannu eiddo cymdeithasol yn y sir a bod tanfeddianu / gorlenwi eisoes wedi eu cynnwys fel meysydd blaenoriaeth. Wedi derbyn y wybodaeth gan y Cymdeithasau Tai, byddai'n hapus i'r swyddogion adrodd yn ôl a rhoi diweddariad ar y sefyllfa a chysylltu yn uniongyrchol gyda'r Cyngorydd Jina Gwyrfai i drafod ymhellach.

**(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Angela Russell**

Fel Arweinydd Grwp Annibynnol Gwynedd, hoffwn gael diweddariad ar yr ymchwiliadau ar sut oedd cyn-bennaeth Ysgol Friars, sydd yn euog ac wedi'i ddedfrydu, yn gallu parhau gyda'i ymddygiad rheibus dros flynyddoedd lawer yn y sir hon. Oherwydd difrifoldeb yr achos, mae'r Grwp Annibynnol ar hyn o bryd mewn cysylltiad a Llywodraeth Cymru i ofyn am Ymholiad Cyhoeddus Statudol i'r mater trallodus yma.

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown**

Fel Aelod Cabinet Addysg ar Gyngor Gwynedd mynegodd bod y 1af o Orffennaf 2024, diwrnod pryd carcharwyd y cyn-bennaeth Neil Foden am gam-drin merched yn benllanw. Fel nifer o Aelodau, mae'n meddwl llawer am y merched gafodd eu niweidio ac yn llawn edmygu eu dewrder wrth gamu i'r llys a chyflwyno eu datganiadau. Croesawyd y ddedfryd yn y gobaith y daw'r canlyniad â pheth heddwch i'r dioddefwyr a'u teuluoedd a'u bod yn gweld ffordd ymlaen i ddechrau ail adeiladu eu bywydau. Nododd y byddai troseddau o'r fath yn sicr o fwrw cysgod hir ar fywydau'r dioddefwyr ac ar adegau pan fyddant yn famau / neiniau eu hunain, a'u plant / wyrion yn cyrraedd oedran ysgol bydd y profiad o ffarwelio â hwy wrth giât yr ysgol yn un o emosiwn poenus. Yr hyn a wnaeth y merched oedd mynd i'r ysgol – mynd yno i fod yn saff.

Amlygodd, mewn sefyllfa o'r fath, term llac ac annigonol yw 'gwersi sydd i'w dysgu,' ond trwy ddysgu, hyd eithaf ein gallu, gallwn ddysgu nad ydy peth fel hyn byth yn digwydd eto yn y Sir. Adroddwyd bod adolygiad annibynnol gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi dechrau o dan Gadeiryddiaeth Jan Pickles - person profiadol iawn, iawn sydd wedi arwain nifer o adolygiadau proffil uchel a dwys iawn. Nododd yr Aelod Cabinet bod ganddi bob ffydd yn Jan Pickles a'i thîm ac ei bod yn croesawu'r gwaith, er bod cyfyngiadau i'r broses. Nododd na fydd modd cymell tystion na mynnu tystiolaeth ar lŵ, ac mai gwahodd pobl i gymryd rhan fydd yr adolygiad gan ddisgwyl y bydd pawb sydd yn derbyn gwahoddiad gan y Cadeirydd yn derbyn. Er yn amlygu pryder nad yw'r gallu i orfodi pawb sydd yn cael gwahoddiad i dderbyn, y bydd unrhyw fater sydd yn disgyn tu allan i sgôp yr adolygiad yn cael sylw 'r Cadeirydd fydd maes o law yn argymell beth i'w wneud gyda'r materion hynny. Er derbyn y posibilrwydd y bydd ymchwiliadau pellach, a phetai'r Comisiynydd Plant neu Lywodraeth Cymru yn teimlo'r angen am hynny, bydd yn croesawu hyn - Grŵp Plaid Cymru Gwynedd eisoes wedi galw am ymholiad cyhoeddus.

Ategodd y bydd cyfeiriad e-bost yn cael ei sefydlu ar gyfer yr adolygiad ac unwaith y bydd hyn wedi digwydd bydd yn cael ei rannu gyda phob Aelod. Os bydd unrhyw un gydag unrhyw wybodaeth neu sylwadau perthnasol am y mater fe'u hanogwyd i rannu'r wybodaeth / sylwadau gyda'r adolygiad.

Rhaid troi pob carreg – pob rhiant a phob plentyn yn y Sir yn haeddu hyn.

**Sylw Atodol Y Cynghorydd Angela Russell**

Bod angen sicrhau bod Cynghorwyr a holl staff y Cyngor yn derbyn hyfforddiant o'r Polisi Canu'r Gloch a sut i'w weithredu yn effeithiol

**Ateb - Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr**

Bod Polisi Canu'r Gloch clir yn bodoli o fewn y Cyngor a bod staff yn ymwybodol ohono ac yn sicr bydd modd codi ymwybyddiaeth y Polisi ymysg Cynghorwyr. Os bydd angen cynnal hyfforddiant pellach, bydd modd cynnal trafodaethau i drefnu hyn

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Elin Hywel**

O ystyried clwm annatod economi, cymuned, iaith a threftadaeth; pa gamau mae'r Cyngor yma yn ymgymryd â hwy i sicrhau gwarchodaeth a chynaliadwyedd sectorau economi treftadol a sgiliau traddodiadol cysylltiedig cymunedau Gwynedd?

**Ateb – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Economi, Y Cynghorydd Nia Jeffreys.**

Bod sectorau economaidd traddodiadol yn parhau i fod yn elfen bwysig o economi Gwynedd. Yn 2023 (data Cyfri Busnes DU, Arolwg ONS 2023 - NOMIS) cofrestrwyd 1,188 (22.5%) o fusnesau yn y sector amaeth yng Ngwynedd, 30 o fusnesau coedwigaeth (0.6%), 30 o fusnesau pysgota (0.6%) a 10 o fusnesau chwarela (0.2%). Er bod canrannau'r busnesau hyn yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, mae nifer y busnesau a'r gweithwyr o fewn y sectorau wedi dirywio yn sylweddol dros y blynyddoedd. Yn 2022 (data Cofrestr Busnes a Chyflogaeth, Arolwg ONS 2022- NOMIS), cofnodwyd 4,500 (7.5%) o weithwyr yn y sector amaeth, 75 (0.1%) mewn coedwigaeth, 35 (0.1%) o weithwyr yn pysgota a 250 (0.4%) yn gweithio yn y sector chwarela.

Bod esblygiad y sectorau hyn dros y canrifoedd wedi siapio ein cymunedau, wedi creu hunaniaeth a gadael gwaddol diwylliannol cyfoethog.

Bod Cynllun y Cyngor yn cydnabod gwerth treftadaeth a'r berthynas gyda'r economi a iaith. Mae Prosiectau Blaenoriaeth Gwynedd Llewyrchus yn dangos fod camau yn cael eu cymryd gan Cyngor Gwynedd yn y maes yma, yn cynnwys:

- Rhaglen Arfor – Mae Cyngor Gwynedd, drwy bartneriaeth ARFOR, wedi bod yn ymchwilio i'r berthynas rhwng iaith ac economi ac yn treialu gwahanol ymyraethau datblygu economaidd i gasglu tystiolaeth am effaith gwahanol bolisïau economaidd ar yr iaith Gymraeg. Byddwn yn parhau i fonitro effaith a gwerthuso'r buddsoddiad dros y flwyddyn nesaf.
- Rhaglen Llechi – mae sicrhau llewyrch o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn un o feysydd blaenoriaeth y Cynllun. Mae'r berthynas rhwng treftadaeth a'r iaith Gymraeg yn greiddiol i'r cynllun yma ynghyd â'r cydweithio rhwng amrediad eang o bartneriaid yn y gymuned, sector breifat a'r sector gyhoeddus i feddiannu'r buddion. Mae buddsoddiad o £18.6M gan Llywodraeth Prydain drwy Gronfa Ffyniant Bro yn y cynllun Llewyrch o'r Llechi er mwyn creu budd lleol o'r dreftadaeth a bydd cais Loteri Treftadaeth llwyddiannus yn canolbwyntio yn ogystal ar ddatblygu sgiliau adeiladu traddodiadol.
- Rhaglen Cefnogi Busnes a Menter - Mae busnesau yn wynebu heriau cyson wrth orfod wynebu newid mewn galw'r farchnad, costau cynhyrchu a datblygiad technoleg. Mae Cyngor Gwynedd wedi cymryd camau i gefnogi busnesau i addasu ac arloesi er mwyn gwarchod a chreu cyflogaeth newydd yn ein cymunedau. Mae dros £2M wedi ei ymrwymo i gefnogi gwahanol fusnesau rhwng 2023 a 2024. Mae'n amodol i bob menter hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a buddsoddi mewn tal byw i'w gweithwyr ac mae nifer o fusnesau traddodiadol a mentrau lleol sydd yn hyrwyddo treftadaeth wedi derbyn arian. Mae enghreifftiau ers 2023 yn cynnwys buddsoddiad o £250,000 gan Cyngor Gwynedd, drwy raglen Ffyniant Gyffredin

Llywodraeth Prydain i Eco Amgueddfa a £400,000 i brosiect Môr Ni i gefnogi'r sector forol a physgota.

- Canolfan Arloesi Gwledig Glynllifon - mae Cyngor Gwynedd yn cydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'i bartneriaid ym Mwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i ddatblygu canolfan fyddai yn datblygu sgiliau ar gyfer y sector bwyd amaeth. Mae'r gwaith yn cyplysu sgiliau traddodiadol gyda sgiliau a thechnoleg gyfoes er mwyn sicrhau hyfywdra mentrau i'r dyfodol.
- Cynllun Diwyllesiant - buddsoddwyd £1.6M drwy Gronfa Ffyniant Cyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn cefnogi cymunedau a sefydliadau lleol rhwng 2023 a 2024 i ddatblygu prosiectau diwylliannol a threftadaeth ar draws y sir.

Bydd Cyngor Gwynedd yn paratoi Cynllun Economaidd newydd eleni er mwyn gosod cyfeiriad i raglenni buddsoddi ar gyfer y cyfnod 2025-2028. Dwi'n rhagweld bydd dipyn mwy o graffu ar flaenoriaethau economaidd dros y misoedd nesaf er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau fydd ar gael i gynnal a chreu cyflogaeth o ansawdd yng Ngwynedd i'r dyfodol.

**Cwestiwn Ategol Y Cynghorydd Elin Hywel**

"Diolchwyd am y wybodaeth gynhwysfawr a dderbyniwyd yn yr ymateb. Hoffwn nodi fy mod yn edrych ymlaen at ddatblygiad y cynllun economaidd newydd. Mae ein heconomi ni yma yng Ngwynedd yn un byw sydd yn datblygu yn gyson. Mae ein dealltwriaeth o botensial yr economi i alluogi cymunedau gwydn, annibynnol a chynaliadwy yn datblygu hefyd. O gydnabod rôl economi yn gwasanaethu ein cymunedau mae pwysigrwydd i warchod ein sectorau traddodiadol, treftadol yn ddyfnach na shar y farchnad neu niferoedd o swyddi yn unig. Mae sectorau economi treftadol a sgiliau traddodiadol Gwynedd yn cynrychioli iaith, diwylliant a sgiliau unigryw.

I lefydd arfordirol - fel Pwllheli, mae'r sectorau morwrol traddodiadol a threftadol yn bwysig i barhad a datblygiad ein cymuned, i warchodaeth ein treftadaeth a'n hunaniaeth.

Pa strategaethau neu gynlluniau penodol sydd ar waith gan Gyngor Gwynedd i gydweithio a sectorau treftadol morwrol ac arfordirol Gwynedd i warchod a datblygu'r sectorau yma?"

**Ateb – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Economi, Y Cynghorydd Nia Jeffreys.**

Bod arfordir Gwynedd yn faith, yn ymestyn o Abergwyngregyn i Aberdyfi, ac felly treftadaeth, y straeon a'r hanes yn bwysig iawn i'r holl gymunedau i'w trysori, ond hefyd yn dod a budd economaidd i'r Sir. Balch felly bod y Cyngor yn cydweithio drwy gefnogi ac ariannu prosiectau megis Eco Amgueddfa sydd yn dathlu Treftadaeth Morol Llŷn a phrosiect megis Mor Ni, sydd yn cefnogi pysgotwyr, busnesau a mentrau sydd yn gwneud defnydd o gynnyrch mor, dros y ddwy flynedd diwethaf - yn hapus i rannu mwy o wybodaeth gyda'r Cynghorydd ac eraill. Y prosiect yn llwyddo i gyfuno'r traddodiadol gyda'r arloesol, y celfyddydau gyda gwyddoniaeth, gan gyflwyno plant a phobl ifanc i weithgareddau cyffrous sydd yn amlygu cyfleoedd lleol yn deillio o'r môr a threftadaeth. Ategodd y Cynghorydd, bod modd gwneud mwy, ac yn deall sylw'r Cynghorydd Elin Hywel am yr angen am gynllun priodol; yn croesawu cydweithio gyda'r Cynghorydd Elin Hywel a chynrychiolwyr o wardiau arfordirol eraill i ddathlu hanes treftadaeth forwrol ein cymunedau

**(4) Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

Bu'r Adran Amgylchedd yn ddigon caredig i ddarparu rhestr, fesul ward, o'r cynlluniau gwerth mwy na £100,000 yr ymgymerwyd â hwy i wella isadeiledd ffyrdd, llwybrau a phalmentydd y sir yn ystod y pum mlynedd diwethaf. O blith y 22 cynllun, mae un sy'n berthnasol i'r sir yn ei chyfanrwydd (y cynllun 20mya) ac un arall sydd wedi ei rannu yn eithaf gwastad rhwng y prif drefi (peiriannau gwefru Gwynedd). O blith yr ugain cynllun sy'n

weddill, mae 5 ym Meirionnydd a 12 yn Arfon a gellir ychwanegu at yr olaf gynllun Lôn Las Eifion sydd, er gwaethaf yr enw, yn perthyn i Arfon, ar wahân i ben gorllewinol eithaf y llwybr sydd yn ward Clynnog. Dyna adael dau gynllun yn Nwyfor. Dau allan o ugain. Beth sy'n egluro'r anghymesuredd yma?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

Bod dadansoddiad yr Aelod yn gywir yng nghyd-destun y wybodaeth a ddarparwyd mewn ymateb i gwestiwn a chriteria eithaf penodol.

Mae prosiectau trafnidiaeth eraill / ehangach wedi eu gwireddu yng Ngwynedd sydd heb eu cynnwys yn yr ymateb i'r aelod. Er esiampl, mae depo ac isadeiledd gwefru ar gyfer y bysiau trydan arloesol sydd yn gweithredu ar drywydd y T22 wedi ei leoli ym Mhorthmadog. Bod gwaith yn cael ei wneud ar gynlluniau eraill yn Nwyfor gan gynnwys cyd weithio gyda chwmni Aldi ar gyfer cyflwyno llwybrau cerdded a beicio ar y ffordd tu allan i'r archfarchnad newydd ym Mhwllheli.

Bydd proffil o be sydd yn bosib ei gyflawni hefyd yn newid dros amser gyda gwerth y prosiectau yn gallu amrywio yn sylweddol sy'n golygu bod nifer y prosiectau yn ei hunan ond yn un mesur. Adroddwyd bod £350k wedi ei ennill eleni i wella llwybrau diogel tu allan i ysgol newydd Treferthyr yng Nghricieth.

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn cyfeirio at brosiectau ble mae ceisiadau am gyllid grant wedi bod yn llwyddiannus gyda cheisiadau eraill wedi eu cyflwyno, gan gynnwys yn ardal Dwyfor, sydd heb fod yn llwyddiannus am fwy nag un rheswm. Mae hyn oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn gosod cyllidebau blynyddol ar gyfer wahanol grantiau ac mae nifer a gwerth y ceisiadau yn sylweddol uwch na'r arian sydd ar gael i'w datblygu a gwireddu ar draws Cymru. Nid yw criteria penodol sydd yn gysylltiedig â rhai grantiau yn ffafriol i ardaloedd gwledig, sydd yn neud yr achos yn heriol os nad amhosib. Mae datblygu ceisiadau o safon yn cymryd tipyn o adnodd yn ei hunan ac mae capasiti felly hefyd yn ffactor o ran nifer ac ansawdd y ceisiadau mae modd eu datblygu a chyflwyno bob blwyddyn.

Gan gymryd yr uchod i ystyriaeth byddai'n anodd iawn neud asesiad gwrthrychol o safbwynt os oes yna anghymesuredd gan fod cymaint o ffactorau yn dylanwadu ar hyn.

Bydd y Gwasanaeth Trafnidiaeth yn parhau yn ei ymdrechion i ddatblygu prosiectau sydd o fudd i gymunedau ar draws Gwynedd. Gwnaed hyn wrth gydnabod bydd gwahanol rhanddeiliaid a barn wahanol o ran blaenoriaethu be a ble fydd y prosiectau ac ni fydd modd, yn anffodus, bodloni na chwrdd â chyfarch dyheadau a disgwyliadau pawb. Ymagwedd y Gwasanaeth yw gwneud y gorau posib o'r adnoddau sydd ar gael ac i barhau i wireddu a chyflawni prosiectau trafnidiaeth ar sail blwyddyn i flwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys datblygu a chryfhau ceisiadau sydd wedi bod yn aflwyddiannus yn y gorffennol.

**Cwestiwn atodol Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

Sut mae'r adran yn gwarantu tegwch y broses o ddatblygu prosiectau a cheisiadau am arian fel nad ydy gweithredoedd yr adran ei hun (yn annibynnol ar feini prawf grantiau'r Llywodraeth) yn arwain at ryw lun ar *managed decline* yn achos Ardal Dwyfor, lle mae Gwynedd yn diystyru Dwyfor fel mae Caerdydd yn diystyru Gwynedd?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

Er yn deall y sentiment, mae meini prawf Llywodraeth yn golygu bod Gwynedd, gyda phrosiectau o'r fath, yn aml ar ei cholled o gymharu â siroedd mwy poblog ac yn anffodus dyma'r drefn, er nad ydym yn cydweld â hi. Er hynny, balch bod rhywfaint o adnodd ar gael

i ddatblygu'r prosiectau yn y lle cyntaf, ac er bod rhai ar y silff ar hyn o bryd, maent yn barod i'w cyflawni ac nid yw Gwynedd, fel rhai siroedd eraill, yn rhoi gorau i gapasiti. Er bod cyfres o arbedion a thoriadau yn wynebu'r Cyngor yn y blynyddoedd nesaf, bydd Gwynedd yn gwneud yn dda i ddal gafael ar yr adnodd sydd gennym**.**

## 7. CYNLLUN RHEOLI ASEDAU 2024 /2034

Cyn cyflwyno'r adroddiad, cymerodd Arweinydd y Cyngor y cyfle i longyfarch yr Aelod Seneddol Liz Saville Roberts ar fuddugoliaeth sylweddol yn yr etholiad cyffredinol; ar lwyddiant gwych Llinos Medi ar ei phenodiad yn Aelod Seneddol Môn, ac i Catrin Wager (cyn aelod Cabinet) ar ei pherfformiad gwych yn etholaeth Aberconwy.

Cyflwynwyd adroddiad gan Arweinydd y Cyngor yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Asedau 2024-34 yn unol ag argymhelliad y Cabinet, 11 Mehefin 2024. Eglurwyd bod y Cyngor yn derbyn grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol i'w ddefnyddio ar gyfer blaenoriaethau rheoli asedau, megis adeiladau, ffyrdd, cerbydau, technoleg gwybodaeth ac offer sydd yn hanfodol ar gyfer darparu'r gwasanaethau gorau posib i bobl Gwynedd. Yr adroddiad felly yn rhagrybudd o'r sefyllfa ariannol - yn amlygu bwlch sylweddol yn yr hyn sydd ei angen ar hyn sydd ar gael i'w wario gyda'r adnoddau sydd ar gael at ddibenion cyfalaf yn annigonol ac yn debyg iawn i sefyllfa refeniw'r Cyngor (trafodaethau ar gyllideb refeniw eisoes wedi dechrau ymysg y Penaethiaid ac aelodau'r Cabinet i ystyried sut i weithredu o fewn cyllideb). Er hynny, llwyddwyd i gyfarch rhai pethau elfennol a chlustnodi arian ar gyfer prosiectau sydd wedi eu blaenoriaethu. Diolchwyd i'r Prif Weithredwr a'i dîm am arwain ar y gwaith a chynnal proses oedd yn cynnwys ymgynghori gydag Aelodau.

Cyhoeddwyd bod cadarnhad gan Llywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer prosiect Penrhos - yn newyddion i'w groesawu sy'n galluogi'r bwrw ymlaen gyda chynllun gwych sydd yn ymateb i wir anghenion pobl sydd angen gofal yn ardal Pwllheli.

Cyfeiriwyd at rai o'r cynlluniau sydd wedi eu hadnabod ynghyd a rhai cynlluniau sydd heb adnodd ar hyn o bryd, ond y byddai'r sefyllfa yn cael ei adolygu'n barhaus.

Ategodd y Prif Weithredwr, er diffyg cyfalaf, nad oedd diffyg ymdrech i ddarparu gwasanaethau er bod y gofynion yn uchel a'r adnodd yn isel. Amlygodd y byddai'r grant cyfalaf craidd yn parhau ar yr un lefel - £6.6miliwn y flwyddyn, ac na fydd modd cyflawni cymaint gyda'r adnodd craidd o ystyried lefelau chwyddiant dros y 5 mlynedd diwethaf y mae gwerth £6.6miliwn yn 2009 gyfwerth â £4.3miliwn heddiw, sy'n lleihad o 34%.

Diolchwyd am yr adroddiad. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn:-

Mewn ymateb i sylw am yr angen i edrych i mewn i ffigyrau poblogaeth Gwynedd (cyhoeddiad y cyfrifiad diwethaf) o ystyried bod y swm sydd yn cael ei ariannu gan Llywodraeth Cymru yn cael ei gyfrifo yn ôl cyfanswm poblogaeth y Sir, nododd yr Arweinydd ei fod yn pryderu am y ffigwr poblogaeth a bod angen edrych ar gael ystadegau mwy cadarn i'r dyfodol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag uwchraddio pibellau dwr i stadau tai a pham mai cyfrifoldeb y Cyngor oedd hyn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr, oherwydd newid mewn cyfrifoldebau, nid y Cyngor fydd yn cynnal a chadw'r pibellau o hyn ymlaen, ac felly ni fydd gwariant pellach gan y Cyngor yn y maes yma a'r arian felly yn cael ei ryddhau ar gyfer gwasanaethau eraill.

Amlygwyd balchder o'r cadarnhad am fuddsoddiad Penrhos – bydd yn gwneud gwahnaiaeth mawr i ardal Pwllheli lle mae gwir angen am y gwasaneth.

Er yr heriau ariannol, bod y buddsoddiadau yn cyfrannu at gynllunaiu cyffrous ar draws y Sir

Gobaith y bydd trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru ynglŷn â chreu Hwb Iechyd i ddinas Bangor yn dwyn ffrwyth.

**PENDERFYNWYD**

**Mabwysiadu'r Cynllun Asedau 2024-2034 yn unol ag argymhelliad y Cabinet ar 11eg Mehefin 2024 ac i gynnwys:**

- **Y symiau ariannol a argymhellir yn atodiad 1 o'r adroddiad**
- **Dadrwymo'r symiau ariannol sydd yn y Cynllun Rheoli Asedau presennol**
- **Y Cabinet i flaenoriaethu a phenderfynu ar ddyraniad cyllidol a) cynnal a chadw rhaglenedig a'r adeiladau b) y wedd nesaf o brosiectau i foderneiddio ysgolion, petai adnodd cyfalaf ychwanegol yn cael ei adnabod yn y dyfodol.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2023/24

Croesawyd Mr Eifion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad blynyddol y pwyllgor am 2023/24.

Nododd y Cadeirydd mai pleser oedd cyflwyno adroddiad positif gyda'r safonau yn parhau yn uchel. Ategodd bod y Pwyllgor wedi llwyddo i gryfhau trefniadau ar gyfer ymateb i'r dyletswydd arweinyddion grwpiau gwleidyddol drwy gytuno a mabwysiadu meini prawf ar gyfer mesur llwyddiant y gyfundrefn. Diolchodd i'r tri arweinydd ac i'r Swyddog Monitro am y cydweithio positif a fu wrth wneud y gwaith a diolchodd hefyd i Aelodau'r Pwyllgor am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Ategodd y Swyddog Monitro bod ymateb i'r dyletswydd newydd yn ganlyniad o gydweithio da. Pwysleisiodd yr angen i sicrhau dealltwriaeth o'r Cod Ymddygiad a bod modd gwneud hynny drwy gynnal hyfforddiant pellach fyddai'n sicrhau bod Aelodau yn gyfarwydd â hanfodion y Cod. Amlygodd hefyd fod sedd wag ar y Pwyllgor ac anogodd Aelodau'r Cyngor i gyfeirio unigolion ymlaen i wneud cais.

Diolchwyd i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau am ei waith yn ystod y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2023/24

Croesawyd Mr Eifion Jones, cyn Is-gadeirydd y Pwyllgor i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad blynyddol y pwyllgor am 2023/24 yn absenoldeb cyn Gadeirydd y Pwyllgor am y cyfnod, Mrs Sharon Warnes.

Nododd ei bod yn bleser ganddo gyflwyno adroddiad y Cadeirydd, ar sail gofynion statudol Llywodraeth Cymru, oedd yn amlinellu sut mae'r Pwyllgor wedi mynd ati i ystyried y ffactorau anodd sydd wedi wynebu'r Cyngor dros y cyfnod ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor ar sut mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarn i'r risgiau hynny. Amlygodd bod y Pwyllgor wedi cynnal eu Hunanasesiad cyntaf yn mis Ebrill 2024 a tynnwyd sylw at ganlyniadau boddhaol iawn yr hunanasesiad hwnnw.

Diolchwyd i holl Aelodau'r Pwyllgor am eu cydweithrediad ac am eu cyfraniad allweddol i waith y Pwyllgor. Diolchwyd hefyd i'r holl swyddogion sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor mewn modd trylwyr a phroffesiynol. Croesawyd y Cyng Ioan Thomas fel aelod newydd i'r Pwyllgor

a llongyfarchwyd y Cyng Paul Rowlinson, cyn aelod o'r Pwyllgor, ar ei benodiad yn Aelod Cabinet Cyllid

Dymunwyd y gorau i Carys Edwards yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 ac i Rhys Parry fel Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2024/25.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd Eryl Jones Williams ei fod yn siomedig bod y Pwyllgor wedi cefnogi risg i'r Cyngor gyda DoLS a'r Pwyllgor Craffu Gofal wedi bod yn erbyn hyn ar hyd y blynyddoedd, nododd Mr Eifion Jones ei fod yn derbyn y sylw, ond amlygodd mai gwneud argymhellion yw gwaith y Pwyllgor ac nid gwneud penderfyniadau.

**PENDERFYNWYD**

**DERBYN YR ADRODDIAD A NODI'R WYBODAETH**

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2023/24**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ei adroddiad blynyddol mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn Gwynedd yn ystod 2023/24. Trafodwyd yr elfennau hynny sydd yn bwysig i unigolion, yr hyn na all bobl fyw hebddynt a cyfeiriwyd at ymchwil a wnaed gan sefydliad PAL (Cananda) ble canfuwyd y pum peth pwysicaf oedd yn gyffredinol i bawb. Defnyddiodd y pum maes yma fel sylfaen i'w gyflwyniad gan drafod sut roedd y Gwasanethau Cymdeithasol yng Ngwynedd yn ymateb i'r elfennau hynny – teulu a chyfeillion, cartref fy hun, cael gwneud penderfyniadau, rôl sy'n cael ei werthfawrogi mewn cymdeithas a teimlo'n ddiogel.

Yn ystod ei gyflwyniad, cafodd ffilm fer ei rhannu yn amlygu gwaith arbennig tîm y gwasanaeth anabledd dysgu sydd yn gyfrifol am drefnu a datblygu cyfleoedd gwaith. Roedd y ffilm yn cynnwys cyfweliadau gyda gweithwyr cefnogol ac unigolion oedd yn derbyn cyfleodd ynghyd ag enghreifftiau o'r gwaith da sydd yn cael ei gyflawni.

Diolchodd y Cyfarwyddwr i Marian Parry Hughes (Pennaeth y Gwasaneth Plant) ac Aled Davies (Pennaeth y Gwasaneth Oedolion) am eu gwaith. Diolchwyd hefyd i holl staff y gwasanethau gan ddiolch yn arbennig i Catrin Thomas am ei gwaith gyda Cefnogi Pobl a phob lwc iddi yn ei swydd newydd, ac i Lois Owens (Uwch Swyddog Gweithredol) am ei gynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi'r adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr am y cyflwyniad oedd yn amlygu'r gwaith da.

Ategwyd diolchiadau'r Arweinydd gan sawl aelod arall yn ogystal, a chodwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Bod llythyr oedd yn gynwysedig yn yr adroddiad oedd yn diolch am waith gofalwyr yn ysbrydoledig – diolchwyd i'r gwasaneth am eu gwaith
- Er y gwaith da sydd yn cael ei gyflawni, nid oedd cyfeiriad at gwynion yn yr adroddiad
- Bod dymuniad gweld cynlluniau cyfleoedd gwaith anableddau dysgu yn ymestyn i Feirionnydd (dim Arfon yn unig)
- Bod yr adroddiad yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol, yn onest ac yn hawdd i'w ddarllen
- Bod angen 'Gwynedd Oed Gyfeillgar' ar gyfer pob oed – angen hyrwyddo hyn
- Bod angen codi ymwybyddiaeth ac annog defnydd meddalwedd boardmaker

- Bod yr adroddiad yn un positif er bod pwysau cynyddol ar y gwasanaethau
- Bod angen mwy o gydweithio rhwng adrannau, ysgolion a lleoliadau gwaith i fynd i'r afael ag ymateb i'r galw cynyddol am ddiagnosis awtistiaeth (rhestr aros o ddwy flynedd). Goblygiadau costau i'r gwasanaeth yma felly angen cydweithio ar draws y gwasanaethau i ddeall y sefyllfa yn well a rhannu syniadau
- Ymestyn diolch i waith y trydydd sector, i'r trigolion hynny yng Ngwynedd sydd yn ofalwyr di-dâl – angen gwneud mwy i'w cefnogi
- Bod angen codi ymwybyddiaeth taliadau uniongyrchol fel modd o dderbyn gwasanaethau gofal a chymorth – esiamplau da ar draws y Sir lle mae hyn wedi llwyddo

Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Statudol:-

- Bod pob ymgais yn cael ei wneud i efelychu gwaith y tîm gwasaneth anabledd dysgu yn Ne y Sir a hynny mewn ymateb i'r cynnydd yn y nifer o bobl gydag anableddau dysgu (o 44 i 99)
- Bod cyfeiriad at gwynion wedi ei nodi yn y dudalen Gwybodaeth Bellach ar ddiwedd yr adroddiad oedd hefyd yn cynnwys dolen i Adroddiad Blynyddol Cwynion
- Er derbyn bod rhestr aros o ddwy flynedd ar gyfer diagnosis awtistiaeth bod y gwasanethau plant yn ymdrin â symptomau ac nid cyflyrau gan sicrhau bod y gefnogaeth briodol yn cael ei ddarparu. Amlygwyd bod Gwasaneth Awtistiaeth newydd wedi ei lansio yn ystod 2023/24 sydd yn darparu gwybodaeth a hyfforddiant i wella dealltwriaeth o awtistiaeth.
- Bod gwaith gofalwyr di-dâl yn anhepgor i'r gwasanaeth gyda chanran sylweddol uchel o ofalwyr di-dâl heb gydnabyddiaeth - yn sicr mae lle i ddiolch a gwerthfawrogi eu gwaith. Er yn derbyn yr angen i wneud mwy, adroddwyd bod swyddogion penodol yn gweithio gyda gofalwyr di-dâl, yn cyflwyno syniadau arloesol i gefnogi plant a buddsoddi adnoddau mewn hybiau oedolion i gefnogi gofalwyr.
- Bod gwaith o godi ymwybyddiaeth taliadau uniongyrchol yn cael ei weithredu, ac yn sicr yn ffordd ymlaen.

**PENDERFYNWYD**

**DERBYN YR ADRODDIAD A NODI'R WYBODAETH**

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU 2023/24

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Menna Trenholme adroddiad blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2023/24 gan nodi bod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith sydd wedi digwydd gan y Panel Strategol Diogelu. Amlygodd bod polisi newydd wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet yn Chwefror 2024 yn dilyn adolygiad o'r polisi blaenorol a luniwyd yn 2013.

Tynnwyd sylw at bryderon yn y cynnydd mewn cyfeiriadau plant mewn gofal ynghyd a phryder am y gwasaneth DoLS sydd gyda nifer fawr yn aros am asesiad.

Adroddwyd, er bod y panel yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau corfforaethol sydd yn ymwneud â materion diogelu o fewn Gwynedd, eu bod yn cydweithio yn dda gydag asiantaethau a phartneriaid.

**PENDERFYNWYD**

**DERBYN YR ADRODDIAD A NODI'R WYBODAETH**

## 12. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH 2023/24

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ei adroddiad blynyddol oedd yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr Gwynedd ynghyd â phrif weithgareddau 2023/24. Diolchodd y Pennaeth i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, y Cynghorydd Dewi Owen ac aelodau'r pwyllgor a'r swyddogion o fewn y gwasanaeth sy'n rhoi'r gefnogaeth o ddydd i ddydd.

Tynnwyd sylw at y bwletin wythnosol sydd yn rhannu gwybodaeth ynghyd a'r bwriad o wella canran mynychu hyfforddiant ymysg aelodau. Ategodd y bydd y rhaglen hyfforddiant yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth y Cyngor, fydd yn cynnwys diogelwch a gwelliannau craffu. Nododd hefyd bod safle mewnrwyd yr aelodau yn cael ei ddatblygu yn barhaus ac y byddai yn cydweithio yn agos gyda Chadeirydd presennol Y Pwyllgor Gwasanethau Democratiaeth, Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones, i ddatblygu Newyddlen Gwasanethau Democratiaeth.

**PENDERFYNWYD**

**DERBYN YR ADRODDIAD A NODI'R WYBODAETH**

## 13. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2023/24

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Fforwm Craffu ar gyfer 2023/24 gan y Cyng. Elin Hywel ar ran Cadeirydd y Fforwm Craffu, y Cyng. Beth Lawton. Danfonwyd dymuniadau gorau at y Cynghorydd Beth Lawton a diolchwyd iddi am ei harweiniad teg a chadarn yn y maes craffu bob amser.

Tynnwyd sylw at y gwaith craffu a gyflawnwyd yn ystod 2023/24 gan roi sicrwydd annibynnol ar wahanol feysydd. Cyfeiriwyd at esiamplau lle gwelwyd gwahaniaethau yn sgil craffu da ynghyd a gwaith ychwanegol megis cynnal ymchwiliad craffu a grŵp tasg a gorffen a gafodd eu cyflawni yn sgil ceisiadau gan yr Aelodau. Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau craffu ac adnabuwyd camau gweithredu. Yn dilyn hyfforddiant diweddar, cydnabuwyd yr angen i greu argymhellion clir a mesuradwy fydd yn eu tro yn sefydlu trefniadau mwy ffurfiol er mwyn cadw golwg ar effaith craffu.

Diolchwyd i'r Swyddogion am eu cefnogaeth ac am lunio'r adroddiad yn ofalus. Diolchwyd hefyd i'r Aelodau am eu dyfalbarhad i sicrhau craffu effeithiol, manwl a phwrpasol yng Ngwynedd

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.  Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

Diolchwyd i'r Cynghorydd Beth Lawton a'r Cynghorydd Elin Hywel - gwerthfawrogwyd y gwaith a gwblhawyd dros y flwyddyn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â Chadeiryddiaeth Pwyllgor Addysg ac Economi a chais i ystyried dilyniant Is-gadeirydd i Gadeirydd, nododd y swyddog monitro bod y trefniant presennol yn unol â'r balans gwleidyddol.

Mewn ymateb i gynnig y dylid gwahodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd (Aelodau Lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio) i'r Fforwm Craffu, nododd y swyddog monitro, yn unol â chanllawiau CIPFA nad oedd rôl statudol o graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ond ategodd bod modd cyfeirio'r cynnig i'r Pennaeth Gwasanethau Democratiaeth ei ystyried.

Amlygwyd pryder gan y Cynghorydd Richard Glyn Roberts bod adroddiad Estyn (Mehefin 2023) yn amlygu bod gweithdrefnau mewnol yr Adran Addysg yn dderbyniol er yn amlwg, yn dilyn achos llys cyn-bennaeth Ysgol Friars ym Mangor, bod y sefyllfa yn dra gwahanol. Nododd bod angen ystyried trefn sydd yn herio gwybodaeth yn hytrach na gorfod derbyn y wybodaeth gerbron yn  unig.

**PENDERFYNIAD**

**DERBYN YR ADRODDIAD A NODI'R WYBODAETH**

## 14. YMGYNGHORIAD AR SUSTEM BLEIDLAIS SENGL DROSGLWYDDADWY AR GYFER ETHOLIAD CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol yn gofyn i'r Cyngor gefnogi amserlen ddiwygiedig ar gyfer cynnal ymgynghoriad ar fabwysiadu sustem Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (PSD) ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd o 2027 ymlaen. Nodwyd bod yr amserlen yn cael ei diwygio yn sgil cynnal etholiad cyffredinol yn y DU ddechrau mis Gorffennaf 2024. Amlygwyd mai amhriodol fyddai cynnal ymgynghoriad yn ystod etholiad cyffredinol ac felly gohiriwyd y broses a crëwyd amserlen amgen ar gyfer cynnal y broses.

Cyflwynwyd amserlen arfaethedig gyda bwriad o ddechrau'r ymgynghoriad 15 Gorffennaf 2024.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.  Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

Mewn ymateb i gwestiwn sut y bydd trigolion lleol yn cael gwybodaeth am yr ymgynghoriad, nododd y swyddog monitro y bydd gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor, mewn llyfrgelloedd a gwybodaeth wedi ei rannu ymysg Cynghorau Cymuned, Dinas a Thref

Mewn ymateb i gwestiwn os oedd asesiad effaith cydraddoldeb wedi cael ei gynnal, nododd y swyddog monitro bod asesiad cydraddoldeb cychwynnol wedi ei gwblhau, ond y byddai asesiad cydraddoldeb manylach wedi ei gwblhau erbyn cyflwyno'r adroddiad terfynol i gyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn ar 24 Hydref 2024. Mewn ymateb i gwestiwn ategol, nododd y byddai'r asesiad yn cynnwys yr effaith ar yr iaith Gymraeg.

Mewn ymateb i gais am unrhyw ragdybiaeth o'r ardaloedd daearyddol posib fyddai'n hanfodol ar gyfer sicrhau bod cysylltiad gyda'r cynghorydd â'r ardal, nododd y swyddog monitro, mai'r statud yw creu ward gyda rhwng 3 a 6 aelod (gan dderbyn bod 3 aelod yn isel mewn ardaloedd gwledig), ond nad oedd bwriad amlygu ffiniau / gosod map oherwydd pryder y gall hynny arwain at farn fydd yn cael ei gyflwyno ar sail y ffiniau. Ategodd bod y comisiwn wedi sefydlu rhiniog o sefydlu wardiau drwy ystyried y nifer etholwyr mewn etholaeth - gall unrhyw ragdybiaeth o faint a ffurf y ward fod yn gamarweiniol.

Amlygwyd pryder drwy ymuno wardiau trefol er mwyn sicrhau ffigwr poblogaeth arwain at gamreoli gyda'r ardaloedd gwledig cyffiniol yn colli allan. A oes ystyriaeth wedi ei roi i greu wardiau newydd yn hytrach nag ymuno wardiau? Mewn ymateb nododd y swyddog monitro mai adolygiad cyffredinol o wardiau oedd dan sylw.

**PENDERFYNWYD**

**CEFNOGI'R AMSERLEN DDIWYGIEDIG AR GYFER CYNNAL YMGYNGHORIAD AR Y BLEIDLAIS SENGL DROSGLWYDDADWY AR GYFER ETHOLIADAU CYNGOR GWYNEDD O 2027 YMLAEN**

## 15. YMATEBION / DIWEDDARIADAU i RYBUDDION O GYNNIG

Cyflwynwyd er gwybodaeth

1. Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Llio Elenid Owen i gyfarfod 9 Mai, 2024 o'r Cyngor yn galw am ymyrraeth ac ymchwiliad llawn gan Lywodraeth Cymru i'r penderfyniad i gau Canolfannau Ambiwlans Awyr Cymru yn Ninas Dinlle a'r Trallwng.

2. Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn i gyfarfod 9 Mai, 2024 o'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu Deddf Eiddo.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00yp a daeth i ben am 4.35yp.

______________________________

**CADEIRYDD**